

POB PLENTYN



Rhaglen Mesur Plant Cymru
2015/16

Awdur

Linda Bailey: Ymgynghorydd Iechyd
Cyhoeddus / Gwybodaeth Iechyd

Tynnu data

Louise Richards (Gwasanaeth Gwybodeg
GIG Cymru)

Dadansoddi data

Mari Jones (Dadansoddwr Arweiniol),
Anna Childs, Hugo Cosh, Gareth Davies,
Holly Walsh, Claire Withey.

Cydnabyddiaethau

Diolch yn fawr i'r teuluoedd a'r plant
a gyfrannodd at y rhaglen ac i'r holl
staff mewn Byrddau Iechyd sydd wedi
cefnogi'r rhaglen ledled Cymru.

Diolch hefyd i Ciarán Humphreys,
Dyfed Huws, Nathan Lester a
Maggie Grayson o Is-adran Gwybodaeth
Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu
cyngor a'u cefnogaeth yn ystod proses
ddrafftio'r adroddiad.

Manylion cyhoeddi

Teitl:

Rhaglen Mesur Plant Cymru 2015/16

Cyhoeddwr:

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus
Cymru

Dyddiad:

26ain Ebrill 2017

ISBN 978-1-910768-47-1

I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwrch:

childmeasurementprogramme
@wales.nhs.uk

Gwefan:

[www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/
tudalen/67936](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936)

© 2017 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a geir yn y ddogfen hon o dan delerau y Drwydded Llywodraeth
Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr
amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid rhoi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint
y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd
Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Siartiau, tablau a mapiau	4
Cyflwyniad	5
Crynodeb	5
Cyfranogiad	6
Canlyniadau	7
Pwysau Iach	7
Pwysau iach neu o dan bwysau	7
Gordewdra	8
Dros bwysau neu'n ordew	9
Amrywiad yn ôl amddifadedd	10
Amrywiad yn ôl ethnigrwydd	11
Cymhariaeth â Lloegr	12
Talfyriadau	14
Cyfeiriadau	15



Siartiau, tablau a mapiau

Ffigur 1 Canran y plant 4 i 5 oed sydd â phwysau iach neu sydd o dan bwysau; dros bwysau; neu'n ordew 2012/13 – 2015/16 Cymru	5
Tabl 1 Cyfranogiad yn Rhaglen Mesur Plant Cymru ers 2012/13	6
Ffigur 2 Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, awdurdodau lleol Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2015/16	8
Ffigur 3 Canran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, awdurdodau lleol Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2015/16	9
Ffigur 4 Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, y pumed â'r amddifadedd mwyaf a'r pumed â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2015/16	10
Ffigur 5 Data ethnigrwydd o Raglen Mesur Plant Cymru, plant 4 i 5 oed, canran, Cymru, 2015/16	11
Ffigur 6 Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, yn ôl grŵp ethnig, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2013/14 – 2015/16	12
Ffigur 7 Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, Cymru a Lloegr, Rhaglen Mesur Plant Cymru a Rhaglen Mesur Plant Cenedlaethol (Lloegr) 2015/16	12



Cyflwyniad


Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio rhai o'r prif ganfyddiadau o Raglen Mesur Plant Cymru. Ceir canlyniadau manylach, yn cynnwys tablau, graffiau a mapiau byrddau iechyd ar-lein. Maent ar gael ar dudalennau gwe Rhaglen Mesur Plant Cymru yn www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936

Mae dogfen arall yn nodi hanes y rhaglen a sut mae'r rhaglen yn gweithredu ar gael hefyd ar dudalennu gwe Rhaglen Mesur Plant Cymru. Mae'r ddogfen honno hefyd yn rhoi gwybodaeth am y categorïau nifer achosion, mesuriadau, Mynegai Màs y Corff (BMI), dadansoddiadau a sut y caiff arwyddocâd ystadegol ei fesur.

Mae'r dull hwn o gyflwyno gwybodaeth yn wahanol i'r adroddiad blynyddol mwy o faint a gynhyrchwyd mewn blynyddoedd diweddar.

Crynodeb

Ar lefel genedlaethol, prin iawn fu'r newid yn nifer y plant sydd â phwysau iach, dros bwysau neu'n ordew dros y pedair blynedd diwethaf fel y gwelir yn ffigur 1. Roedd bron i dri chwarter o'r plant a fesurwyd â phwysau iach.



Ffigur 1 – Canran y plant 4 i 5 oed sydd o dan bwysau, â phwysau iach, dros bwysau neu'n ordew 2012/13 – 2015/16 Cymru.

	O dan bwysau	Pwysau Iach		Dros bwysau	Gordew
12/13	0.6	73.2		14.9	11.3
13/14	0.8	72.7		14.6	11.8
14/15	0.9	72.9		14.5	11.6
15/16	1.0	72.9		14.5	11.7

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)

Cyfranogiad

Cafodd 93.3% o'r plant a oedd yn gymwys i gyfranogi yn y rhaglen eleni eu mesur a chafodd eu mesuriadau eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae hon yn ganran ychydig yn is na'r llynedd. Fodd bynnag, gwnaeth nifer uwch o blant gyfranogi nag mewn unrhyw un o'r blynyddoedd blaenorol. Cafodd 171 o blant eu tynnu o'r rhaglen gan eu rhieni, ychydig dros ddwbl y rhif (84)


a dynnwyd o'r rhaglen y llynedd. Cafodd y nifer uchaf o blant eu tynnu allan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol (UHB) Caerdydd a'r Fro – 80. Cafwyd cyfranogiad ychydig yn uwch ymhlith plant a oedd yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru (94.1%) o gymharu â'r cwintel â'r amddifadedd mwyaf (92.2%). Cyfranogodd canran ychydig yn uwch o ferched (93.9%) o gymharu â'r bechgyn (92.7%).

Tabl 1 – Cyfranogiad yn Rhaglen Mesur Plant Cymru ers 2012/13

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Plant sy'n cyfranogi/ gymwys	29,238 / 34,679	30,669 / 33,794	32,889 / 34,815	33,327 / 35,721
Canran	84.3%	90.8%	94.5%	93.3%

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data RHMP (NWIS)

Bob blwyddyn caiff cyfrifiad ysgolion ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ac ym mis Ionawr 2016, cofnodwyd bod 35,917 o blant yn mynychu dosbarthiadau derbyn yng Nghymru. Mae hwn yn ffigur agos iawn i'r 35,721 o blant a gofnodwyd ar y Gronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer Iechyd Plant Cymunedol (NCCHD) ar ddiwedd Gorffennaf 2016, sy'n awgrymu bod nifer y plant a oedd yn gymwys i gyfranogi yn agos i'r rhif gwirioneddol o blant y gwyddys eu bod yn mynychu dosbarthiadau derbyn.





Canlyniadau

Pwysau iach

Roedd 72.9% o'r plant a fesurwyd yng Nghymru â phwysau iach. Mae canran y merched sydd â phwysau iach (73.7%) yn uwch na chanran y bechgyn (72.1%) ac mae'r gwahaniaeth yn ystadegol sylweddol ar lefel genedlaethol. Ar lefel leol, nid yw'r gwahaniaethau mewn pwysau iach rhwng bechgyn a merched yn sylweddol.

Pwysau iach neu o dan bwysau

O ganlyniad i'r ganran fach iawn (1%) o blant sydd o dan bwysau, caiff mesuriadau pwysau iach ac o dan bwysau eu cyfuno mewn rhai byrddau iechyd ac awdurdodau iechyd er mwyn osgoi'r posibilrwydd o nodi plant unigol. Yn genedlaethol roedd 73.8% o blant naill ai â phwysau iach neu o dan bwysau. Ond ceir amrywiad sylweddol ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru – roedd 80.8% o blant ym Mro Morgannwg a 66.2% o blant ym Merthyr Tydfil â phwysau iach neu o dan bwysau.

Gordewdra


Mae nifer y plant sy'n ordew yn y grŵp oedran hwn ar ei uchaf ym Merthyr Tydfil, sef 17.8% sy'n sylweddol uwch yn ystadegol o gymharu â chyfartaledd Cymru (11.7%). Mae nifer y plant sy'n ordew hefyd yn sylweddol uwch yn ystadegol o gymharu â chyfartaledd

Cymru ym Mlaenau Gwent (15.0%), Gwynedd (13.8%) a Rhondda Cynon Taf (13.8%). I'r gwrthwyneb mae'n sylweddol is yn ystadegol na'r cyfartaledd mewn tair ardal awdurdod lleol – Bro Morgannwg (8.3%), Sir Fynwy (8.6%) a Chaerdydd (9.4%).

Ffigur 2 – Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, awdurdodau lleol Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2015/16

Awdurdod Lleol, canrannau

15.9 to 17.8	[1]
14.0 to <15.9	[1]
12.1 to <14.0	[5]
10.2 to <12.1	[11]
8.3 to <10.2	[4]
Ffin Awdurdod Lleol	



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data RHMP (NWIS)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2017, Arolwg Ordians 100044810

Dros bwysau neu'n ordew


Mae dros chwarter y plant (26.2%) yng Nghymru yn y flwyddyn derbyn wedi'u dosbarthu dros bwysau neu'n ordew. Mae dau fwrdd iechyd lle mae nifer y plant sydd dros bwysau neu'n ordew yn sylweddol uwch yn ystadegol na chyfartaledd Cymru. Y rhain yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf sef

28.7% a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sef 28.6%. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mae nifer y plant sydd dros bwysau neu'n ordew yn sylweddol is yn ystadegol, sef 21.5%. Mae'r siartiau a'r tablau ar-lein yn rhoi mwy o wybodaeth am hyn, ynghyd â gwybodaeth am blant sydd dros bwysau ond nid yn ordew.

Ffigur 3 – Canran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, awdurdodau lleol Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2015/16

Awdurdod Lleol, canrannau

30.9 to 33.8	[2]
28.0 to <30.9	[5]
25.0 to <28.0	[8]
22.1 to <25.0	[6]
19.2 to <22.1	[1]
Ffin Awdurdod Lleol	



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data RHMP (NWIS)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2017, Arolwg Ordians 100044810

Amrywiad yn ôl amddifadedd


Caiff mesuriadau pob plentyn eu dadansoddi yn ôl amddifadedd. Caiff cod post neu breswylfa'r plentyn eu dosbarthu yn ôl y cwintel amddifadedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw pawb sy'n byw mewn ardal a ddosberthir fel ardal o amddifadedd yn byw mewn amgylchiadau difreintiedig, ac i'r gwrthwyneb nid yw pawb sy'n byw mewn ardal yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yn gefnog.

Felly er bod un awdurdod lleol (Sir Fynwy) nad yw'n cynnwys unrhyw ardaloedd sydd wedi'u graddio yn yr 20% (pumed) o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru, bydd rhai teuluoedd sy'n byw yno yn profi

lefelau uchel o amddifadedd materol. Mae amddifadedd yn fwy amlwg mewn rhai ardaloedd megis Merthyr Tudful, lle roedd dros un rhan o bump (22.2%) o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs) ymhlith y 10% o'r LSOAs â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru yn 2014.

Er mwyn dadansoddi, rydym yn cymharu nifer y plant yn y categorïau pwysau ar draws pumedau o amddifadedd. Fel y gwelir o Ffigur 4, mae nifer y plant sy'n ordew yn sylweddol uwch yn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf o gymharu â'r cwintelau â'r amddifadedd lleiaf, a phrin iawn fu'r newid yn y bwlch rhwng nifer y plant sy'n ordew yn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ffigur 4 – Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, y pumed â'r amddifadedd mwyaf a'r pumed â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2015/16



¹Efallai na fydd ffigurau yn symio o ganlyniad i dalgrynnu


Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data RhMP (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru)

Amrywiaeth yn ôl ethnigrwydd

O blith y 33,327 o fesuriadau a gofnodwyd ar gyfer y Rhaglen Mesur Plant, roedd ychydig dros 6% (2,026) ar gyfer plant o darddiad ethnig ar wahân i wyn. Cafodd 13% o blant eu hethnigrwydd wedi'i gofnodi fel anhysbys.



Ffigur 5 – Data ethnigrwydd o Raglen Mesur Plant Cymru, plant 4 i 5 oed, canrannau, 2015/16



- Gwyn (80.9%)
- Asiaidd (2.0%)
- Du (0.6%)
- Cymysg (1.8%)
- Tsieineaidd neu arall (1.7%)
- Anhysbys (13.0%)


Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data RhMP (NWIS)

Wrth ddadansoddi'r categorïau o ran nifer y plant, mae'r niferoedd yn fach iawn, ac mae'n anodd asesu a yw unrhyw un o'r gwahaniaethau mewn canlyniadau (wrth eu dadansoddi yn ôl ethnigrwydd) yn sylweddol. Am y rheswm hwn, cafodd y canlyniadau ar gyfer tair blynedd eu cyfuno ynghyd â'u darparu ar gyfer un flwyddyn. Fel y gwelir o ffigur 6, pan gaiff data ei gyfuno, mae nifer y plant o darddiad du sy'n ordew yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, ac yn uwch nag unrhyw un o'r grwpiau ethnigrwydd eraill. Mae'r data cyfunedig hefyd yn dangos bod plant o darddiad Asiaidd yn

fwy tebygol o lawer (78.9%) na phlant gwyn (73.3%) o fod â phwysau iach neu o dan bwysau.



Ffigur 6 – Canran y plant 4 i 5 oed sy’n ordew, yn ôl grŵp ethnigrwydd, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2013/14 – 2015/16




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data RhMP (NWIS)

Cymhariaeth â Lloegr

Lloegr yw’r unig wlad arall yn y DU sydd â rhaglen fesur sy’n cynnwys pob plentyn yn y grŵp oedran hwn. Maent hefyd yn defnyddio’r un raddfa cyfeirnod twf (UK90) er mwyn gwneud cymariaethau cadarn rhwng canlyniadau o Gymru a Lloegr.

Mae nifer sylweddol uwch o fechgyn a merched yn ordew yng Nghymru (Ffigur 7) o gymharu â Lloegr. Mae nifer y plant sydd dros bwysau neu’n ordew hefyd yn sylweddol uwch yng Nghymru, sef 26.2% o gymharu â Lloegr (22.1%). Mae hefyd yn uwch yng Nghymru nag yn unrhyw ranbarth yn Lloegr: yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr y ceir y nifer uchaf sef 24.6%, o gymharu â nifer y plant yn genedlaethol yng Nghymru, sef 26.2%.

Ffigur 7 – Canran y plant 4 i 5 oed sy’n ordew, Cymru a Lloegr, Rhaglen Mesur Plant Cymru a Rhaglen Mesur Plant Cenedlaethol (Lloegr) 2015/16



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data RhMP (NWIS)

Y llynedd gwnaeth Rhaglen Mesur Plant Cenedlaethol (NCMP) Lloegr olrhain mesuriadau rhwng plant y flwyddyn derbyn a phlant blwyddyn 6 am y tro cyntaf, a chafodd y canlyniadau eu cyhoeddi yn 2017. Ar gyfer yr astudiaeth gwnaethant gategoreiddio plant yn ordew neu'n ddifrifol ordew yn y flwyddyn derbyn, ac roedd y rhan fwyaf o'r plant hyn yn parhau i fod yn y ddau gategori hyn chwe blynedd yn ddiweddarach. Ar y llaw arall, o'r rhai a gafodd eu gategoreiddio dros bwysau ond nid yn ordew, gwnaeth traean ohonynt gynnal pwysau iach, parhaodd traean dros bwysau, ac roedd traean yn ordew neu'n ddifrifol ordew erbyn Blwyddyn 6. Roedd y gwaith a wnaed gan yr NCMP hefyd yn awgrymu y gallai plant o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf fod yn llai tebygol na'u cymheiriaid mwy cefnog o ddychwelyd i bwysau iach ym Mlwyddyn 6.

Cafodd gwaith olrhain tebyg ei gynnal yng Nghymru² (cyhoeddwyd 2015). Dangosodd y canlyniadau fod y rhan fwyaf o blant a oedd yn ordew yn y grŵp oedran hwn yng Nghymru yn parhau i fod yn ordew pan gawsant eu mesur bedair blynedd yn ddiweddarach (82.5%). Ar y llaw arall, roedd y rhai a oedd dros bwysau ond nid yn ordew yn fwy tebygol o gynnal pwysau iach erbyn Blwyddyn 4 (47.3%) na pharhau yn y categori dros bwysau (18.6%) neu gael eu dosbarthu'n ordew (34.1%).

Cyd-destun polisi

Fel y trafodwyd mewn adroddiadau blaenorol gan Raglen Mesur Plant Cymru, mae'r rhesymau sy'n achosi plant i fod yn ordew neu dros bwysau yn gymhleth ac yn amrywiol iawn. Bydd angen i unrhyw ddatrysiadau fod yr un peth. Mae'n bwysig gwneud mesuriadau cadarn er mwyn asesu patrymau a thueddiadau, yn ogystal ag asesu llwyddiant wrth fynd i'r afael â'r mater. Bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn defnyddio canlyniadau'r Rhaglen Mesur Plant i lywio'r broses o gynllunio gwasanaethau. Fe'u defnyddir hefyd i lywio mesurau mewn dangosyddion canlyniadau cenedlaethol yn cynnwys Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, Fframwaith Canlyniadau'r GIG a Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar.

Eleni mae Ystadegau Swyddogol y Rhaglen Mesur Plant yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd â lansiad ymgyrch newydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i iechyd a lles plant yng Nghymru o'r enw "*Every Child Wales*".

I gael rhagor o wybodaeth am y mesuriadau, ewch i'n gwefan yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936>

I gael rhagor o wybodaeth am fynd i'r afael â gordewdra mewn plentynod ewch i wefan Gwella Iechyd – Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:

www.everychildwales.co.uk

Talfyriadau

BMI	Mynegai Màs y Corff
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
LSOA	Ardal Gynnyrch Ehangach Is
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
MSOA	Ardal Gynnyrch Ehangach Ganol
NCCHD	Cronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer Iechyd Plant Cymunedol
NCMP	Rhaglen Mesur Plant Cenedlaethol (Lloegr)
NICE	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol
NWIS	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
RhMP	Rhaglen Mesur Plant Cymru
UHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol
UK90	System cyfeirnod twf a ddefnyddir yn y Rhaglen Mesur Plant
WHO	Sefydliad Iechyd y Byd

Cyfeiriadau

- ¹ Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2017) "Changes in the weight status of children between the first and final years of primary school: a longitudinal analysis of data from the National Child Measurement Programme in four local authorities in England between 2006/07 and 2014/15" https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/599259/weight_changes_in_primary_school_children_analysis.pdf (cyrchwyd Mawrth 2017).
- ² Public Health Wales (2015) "Report of Year 4 Child Measurement Programme Pilot 2012/13" <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/67768>



Rhaglen Mesur Plant Cymru
2015/16

www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936